Ein Maniffesto dros Gymru Wrth-Hiliol

Ein Gweledigaeth yw Cymru sy'n rhydd o hiliaeth, rhagfarn a gwahaniaethu. Dymunwn weld Cymru sy'n gynrychiadol ac yn dathlu amrywiaeth. Rydym am i'r dyheadau hyn newid o rethreg i realiti.

Erfynwn ar bob plaid wleidyddol ac ar bob ymgeisydd i osod cydraddoldeb hiliol a gwrth-hiliaeth wrth galon etholiad y Senedd yn 2021.

Cynnwys

Y Cyd-destun 2
Ynghylch Cynghrair Hil Cymru 2
Ynghylch y Maniffesto hwn 2
Argymhellion Trosfwaol 3
Hiliaeth (Unigol a Sefydliadol) 3
Hiliaeth mewn Addysg 4
Hiliaeth mewn Cyflogaeth ac Anghydraddoldeb Cymdeithasol-Economaidd 5
Cynrychiolaeth pobl BAME mewn Bywyd Cyhoeddus a Gwleidyddol 6
Anghydraddoldebau Iechyd a Chofid19 7
Cartrefi 7

Y Cyd-destun

Rydym yn byw mewn cyfnod heb ei debyg, ac mae'r ymraniadau o fewn y gymdeithas wedi cael eu dinoethi i raddau nas gwelwyd erioed o'r blaen. Mae dwysedd y pandemig Coronafirws wedi syfrdanu'r byd, ac er gwaethaf yr honiadau nad yw'r firws yn gwahaniaethu rydym wedi gweld bod niferoedd y bobl Ddu, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig (BAME) sy'n syrthio'n ddifrifol wael ac yn marw o'r clefyd yn echrydus o uwch na'r cyfraddau a welir ymhlith pobl wen. Mae'r cyfnod clo a ddechreuodd yn ymateb iddo wedi cael effaith economaidd waeth o lawer eisoes ar bobl BAME, a disgwylir i hyn barhau. Cynyddu y mae'r bwlch addysgol rhwng plant o wahanol gefndiroedd, ac ni allwn wybod a fydd byth yn cau. Ar ben hyn, mae llofruddiaeth George Floyd yn UDA wedi creu ton o ddicter, cydsafiad a gwrthdystio ledled y byd, gan gynnwys yng Nghymru.

Yn erbyn y gefnlen hon mae'n rhaid inni fod yn eofn ac yn radicalaidd. Ni allwn ddychwelyd at yr un hen arferion ag o'r blaen, oherwydd nid oedd yr 'un hen arferion' hyn erioed yn llesol i lawer ohonom. Maniffesto dros newid a chydraddoldeb hiliol yw hwn, ac rydym an annog y pleidiau gwleidyddol yng Nghymru i'w groesawu a'i fabwysiadu fel arf yn y frwydr etholiadol gyda golwg ar droi Cymru'n wlad well.

Ynghylch Cynghrair Hil Cymru

Menter newydd yw Cynghrair Hil Cymru; fe'i sefydlwyd ym mis Rhagfyr 2018 â'r nod o ddarparu safle hunangyfeiriedig lle y gall sefydliadau ac unigolion BAME[1] (Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig) ddod ynghyd i drafod eu profiadau fel lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, cydrannu gwybodaeth a datblygu syniadau a datrysiadau newydd i her gynyddol hiliaeth yng Nghymru. Mae'r grŵp yn anelu, trwy weithio ar y cyd, at greu Cymru sydd yn fwy cyfartal ac yn gyd-gyfrifol, ac ynddi cymunedau cydlynol a fydd yn ei throi'n wlad ddiogel a chroesawgar lle bydd gan bawb eu hawliau ac y gall pobl BAME ffynnu.

Mae'r grŵp yn gobeithio gweithredu hefyd fel safle cefnogol i unigolion BAME sy'n wynebu gwahanol heriau personol a phroffesiynol. Rydym wedi ymrwymo i weithredu bob amser er lles pobl a chymunedau o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru; i sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol, ac i lefaru'n gadarn ac yn gyson ynghylch polisïau ac arferion sy'n effeithio ar bobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Mae ein haelodaeth yn cwmpasu 29 o sefydliadau a 59 o unigolion, ac yn dal i dyfu.

Ynghylch y Maniffesto hwn

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei llunio gan rychwant o randdeiliaid* yn ystod cyfres o gyfarfodydd a thrafodaethau a gafodd eu trefnu a'u cynnal gan Gynghrair Hil Cymru (*gweler rhestr y cyfranwyr yn Atodiad A). Ystyriwyd cronfeydd tystiolaeth a oedd eisoes yn bodoli fel mannau cychwyn i'n trafodaethau, ac yn enwedig argymhellion polisi Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST) a ddeilliodd o'i Raglen Ymgysylltu BAME ar gyfer Cymru Gyfan.

Diben y maniffesto hwn yw perswadio penderfynwyr cyfredol a rhai'r dyfodol i gynnwys yn eu blaenoriaethau datganedig a'u rhaglenni gwaith yr argymhellion polisi a'r gweithrediadau

[1] 'BAME' yw'r term a ddefnyddir amlaf i ddisgrifio pobl nad ydynt yn 'wyn' neu'n 'frodorion' yn y DU. Rydym yn cydnabod mai term dadleuol ydyw, a'i bod hi'n well gan eraill ddefnyddio 'BME', 'Du' neu 'o Leiafrif(oedd) Ethnig' neu 'Pobl Liw/ POC'. Byddwn yn trafod ac yn adolygu o fewn y grŵp y dewis dermau i'w defnyddio'n barhaus, gan gydnabod efallai na fydd gwahanol aelodau o'r grŵp yn cytuno ynghylch y dewis dermau.

allweddol a gyflwynir yma, y rhai sydd yn ein barn ni yn cynnig llwybr at wireddu gweledigaeth allweddol Cynghrair Hil Cymru, sef Cymru a fydd yn rhydd o hiliaeth, rhagfarn a gwahaniaethu, Cymru fydd yn gynrychiadol ac yn dathlu amrywiaeth, a lle bydd y dyheadau hyn wedi newid o rethreg i realiti.

Argymhellion Trosfwaol

- ***Cydnabod bodolaeth Hiliaeth Systemig*** – Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod mewn modd mwy penderfynol fod anoddefiad hiliol, ethnig a chrefyddol yn ffenomen systemig a sefydliadol; ei fod wedi cynyddu yn sgil Brexit, a'i fod yn tanseilio'r posibilrwydd y gall cenedlaethau'r dyfodol fyw mewn Cymru sy'n amrywiol, yn ddiogel ac yn gydlynol. Amlygwyd hyn yn noethlwm gan Bandemig Cofid19 a'r ymatebion diweddar i fudiad Mae Bywydau Duon o Bwys.

- ***Mesur Anghydraddoldeb Hiliol*** – Gwella'r modd y mae data ethnig yn cael eu casglu, eu monitro a'u defnyddio mewn polisi ac yn ymarferol; gwella amrediad a chwmpas y data wedi'u dadgyfuno sydd ar gael ar ethnigrwydd – gan gynnwys data croesdoriadol; sefydlu Uned Gwahaniaethu ar sail Hil yn Llywodraeth Cymru.

- ***Cynllun Dros Gydraddoldeb Hiliol*** – Dylai Llwyodraeth Cymru sicrhau cynnydd cyflym yn ei hymrwymiad i ddatblygu cynllun cydraddoldeb hiliol strategol, gan fynd i'r afael â'r meysydd allweddol a amlinellir yn y ddogfen hon mewn modd systematig, cydgysylltiedig a hirdymor, a chynnwys targedau diamwys a deilliannau mesuradwy sy'n delio â Hiliaeth, Addysg, Swyddi, Cynrychiolaeth, Iechyd a Chartrefi.

Hiliaeth (Unigol a Sefydliadol)

Mae hyn yn cwmpasu hiliaeth agored megis gwrthdrawiadau hiliol a throseddau casineb, ond gall gynnwys yn ogystal ffurfiau cudd a sefydliadol ar hiliaeth lle mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn dioddef effeithiau (diffyg) cydraddoldeb cyfle a chydraddoldeb deilliannau.

Hiliaeth, Gwrthdrawiadau Hiliol a Throseddau Casineb ar ran Unigolion

1. Gwella ymateb cyfreithiol Cymru i droseddau casineb drwy fabwysiadu diffiniadau o bob ffurf ar gasineb, gan gynnwys mabwysiadu'r diffiniad o Islamoffobia a luniwyd gan yr APPG (Grŵp Hollbleidiol Seneddol) ar gyfer Mwslimiaid Prydeinig.
2. Gwella mynediad at gyfiawnder a diogelwch i unigolion o leiafrifoedd ethnig ac arolygu deilliannau anghymesur mewn anghyfiawnder troseddol ac effeithioldeb y broses gyfiawnder, gan gynnwys ar ran yr Heddlu, wrth ddelio â hiliaeth.
3. Sefydlu grŵp ymateb aml-randdeiliad i ddelio â honiadau o hiliaeth gan unigolion neu sefydliadau.
4. Darparu cyfiawnder adferol i ddioddefwyr a chyflawnwyr troseddau casineb drwy gyflwyno rhaglenni addysg wrth-hiliaeth fel rhan o ddedfrydau cymunedol.

Hiliaeth Sefydliadol

5. Cydnabod hydreiddioldeb yr hiliaeth sefydliadol strwythurol sydd yng Nghymru, a'r strwythurau grym sy'n ceisio eu hail-greu eu hunain yn barhaus, a chydnabod hefyd eu bod yn groes i ddyletswyddau'r sector cyhoeddus, sef cydraddoldeb cyfleoedd, cydraddoldeb mynediad a chydraddoldeb deilliannau.

6. Dilyn esiampl categorïau ethnigrwydd newydd Cyfrifiad 2021 – gan gynnwysy categorïau newydd ‘Asiaidd Du’ ac ‘Asiaidd Cymreig’ yn yr holl ddata a gesglir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Hiliaeth mewn Addysg

Hiliaeth mewn Ysgolion

7. Herio ac atal agweddau hiliol drwy ymgorffori yn y Cwricwlwm Newydd i Gymru ofynion penodol i gynnwys addysg wrth-hiliol reolaidd trwy gydol y camau allweddol, a monitro hyn trwy gyfrwng y fframwaith goruchwylio ysgolion (ESTYN).
8. Gwella’r systemau ar gyfer monitro digwyddiadau hiliol a bwlian mewn ysgolion ac adrodd amdanynt, a’u gwneud yn orfodol, yn unol ag argymhellion Comisiynydd y Plant a Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru.
9. Mynd i’r afael â phroblem prinder athrawon BAME, yn enwedig ar y lefelau uwch, drwy hyrwyddo’r broses o recriwtio a chadw addysgwyr a gwneuthurwyr polisi BAME a hybu camau ymlaen yn eu gyrfa, yn y Sector Addysg.
10. Mabwysiadu’r arwyddair ‘Hanes Cymru yw Hanes Du’.
11. Sicrhau, wrth ddatblygu’r Cwricwlwm Newydd i Gymru, fod portreadu amrywiaeth ethnig a hiliol mewn modd cadarnhaol yn elfen annatod ar draws y cwricwlwm, a bod cyfraniadau i’r gymdeithas yng Nghymru gan bobl Ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig yn cael eu portreadu’n effeithiol, a bod ESTYN yn rheoleiddio hyn.
12. Sicrhau portread mwy cytbwys a manwl gywir o hanes y byd, caethwasiaeth, imperialaeth a hanes colonialaidd Pyrdeinig a’i ganlyniadau, yn unol ag argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu Hiliol (UNCERD).
13. Ehangu’r pwyslais cyfredol ar addysg am holocawst yr Ail Ryfel Byd i gynnwys hil-laddiadau eraill gan gynnwys hil-laddiad Bosnia fel esiampl ddiweddar yn Ewrop.
14. Cynnwys disgyblion a rhieni BAME yn y broses gyfredol o ail-lunio’r cwricwlwm; dylai’r fath ymgysylltu ddigwydd ar draws gwahanol grwpiau ethnig a lleoliadau daearyddol, gan beidio â bod yn symbolaidd yn unig nac yn ecsbloetiol.
15. Gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg a darparwyr eraill hyfforddiant i athrawon a Datblygiad Proffesiynol Parhaus at sicrhau bod athrawon yn cael eu hyfforddi ar bob cam trwy gydol eu gyrfeydd a) mewn cymhwysedd diwylliannol, y sgiliau i fyfyrio ynghylch eu hunaniaeth eu hunain a’u breintiau, a sut gall hyn effeithio ar ddisgyblion; b) i adnabod hiliaeth ac ymateb yn effeithiol iddi, a c) i ddatblygu amrywiaeth go iawn mewn cwricwla;
16. Archwilio anghysondebau rhwng gwahanol grwpiau ethnig o ran y cyfraddau gwahardd disgyblion o’r ysgol, ynghyd ag anghysondebau rhwng gwahanol grwpiau ethnig o ran deilliannau gosod setiau/ bandio;
17. Craffu’n ofalus ar effaith unrhyw newidiadau i ddod yn lefel bresennol y cyllid i gynorthwyo disgyblion BAME a rhai sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr (GRT). Dylid parhau i gyllido rhaglenni sy’n llwyddiannus ac yn gweithio’n dda o ran ymgysylltu â disgyblion BAME a GRT a gwella eu cyrhaeddiad addysgol.
18. Sicrhau bod buddion y cymorth a roddir i ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig, rhai GRT a rhai sy’n astudio Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL) yn cael eu monitro’n drwyadl; a monitro hefyd sut mae trosglwyddo cyllid a dargedid gynt at gronfeydd addysg gyffredinol yn effeithio ar ymgysylltiad â disgyblion a’u perfformiad.
19. Cefnogi a chydrannu’r arferion gorau o ran sut mae ysgolion yn ymateb i ddigwyddiadau hiliol ac yn dysgu disgyblion am hiliaeth yng Nghymru; ariannu ffyrdd o ledaenu ac atgynhyrchu’r arferion hyn.

20. Darparu addysg wrth-hiliol mewn ysgolion o oedran cynnar ymlaen, gan gynnwys cyflwyno yn y cwricwlwm fodelau rôl cadarnhaol o bobl nad ydynt yn wyn. Dilyn y cyngor yng nghyswllt sgiliau dysgu megis mathemateg a darllen, “ychydig, ond yn aml.”
21. Sefydlu grŵp neu gorff rhanddeiliaid i ddelio â digwyddiadau hiliol mewn ysgolion, gan weithio gyda grwpiau megis Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC), Cynghrair Hil Cymru, Dangoswn y Cerdyn Coch i Hiliaeth, Cymorth i Ddioddefwyr, EYST, Cyngor Hil Cymru ac eraill.

Addysg Uwch

22. Sicrhau bod graddedigion Addysg Uwch o gefndiroedd BAME yn cael budd ohoni cyfartal i’w cymheiriaid Prydeinig Gwyn – o ran cyfle cyfartal yn ogystal â deilliannau cyfartal.

Addysgu’r Gweithlu

23. Hyfforddiant mewn cymhwysedd diwylliant i staff y rheng flaen, gan gynnwys hyfforddiant ynghylch rhagfarn ddiarwybod a hyfforddiant yn anelu at leihau gwahaniaethu ar sail diffyg sgiliau yn yr iaith Saesneg; recriwtio staff BAME fel y bydd y gweithlu’n adlewyrchu natur y boblogaeth yn well.

Addysgu’r Cyhoedd

24. Datblygu rhaglen neu ymgyrch ymwybyddiaeth i fynd i’r afael ag ansicrwydd a dryswch ymhlith y cyhoedd ynghylch diffiniadau o ymfudwyr/ ffoaduriaid/ ceiswyr lloches a’u hawliau.
25. Mynnu bod cyrff ym meysydd y Celfyddydau a Diwylliant yn comisiynu mwy o arddangosfeydd celfyddyd, diwylliant a threftadaeth sy’n datgelu gwir hanes Cymru mewn perthynas â gwladychiaeth, caethwasiaeth ac imperialaeth, a’r cyfraniad a wneir gan wahanol haenau o fewnfudwyr.
26. Llunio ymgyrchoedd dychmyglon i addysgu’r cyhoedd sy’n gwreiddio’r cysyniad o Gymru fel cenedl wrth-hiliol ac o Gymreictod fel hunaniaeth sy’n ymfalchïo yn ei chynwysoldeb ethnig a hiliol.

Hiliaeth mewn Cyflogaeth ac Anghydraddoldeb Cymdeithasol-Economaidd

Mae Llywodraeth Cymru’n meddu ar sawl offeryn ysgogi sy’n gadael iddi ddylanwadu’n gadarnhaol ar faes cyflogaeth, ac awgrymwn ei bod yn gweithredu’r argymhellion canlynol hyd ei gallu:

27. Arwain trwy esiampl fel cyflogydd yn y sector cyhoeddus:
    a. Mynnu bod y sector cyhoeddus yng Nghymru’n mabwysiadu arferion llunio rhestr fer sydd yn ‘enw-ddall’ gan anwybyddu manylion personol megis enwau/ codau post/ dyddiad geni;
    b. Sicrhau hyfforddiant safonol ynghylch rhagfarn ddiarwybod (byddai hyn yn ddelfrydol wedi’i safoni a’i achredu) i bob rheolwr llinell, a sicrhau bod paneli recriwtio wedi derbyn hyfforddiant diweddar ynghylch rhagfarn ddiarwybod
    c. Sefydlu cynlluniau gweithredu cadarnhaol i baratoi pobl BAME i fod yn llwyddiannus ym maes recriwtio ac i symud ymlaen i rolau rheolaethol, ac yn enwedig rolau uwch-reolaethol;
    d. Cyhoeddi data bob blwyddyn ar gynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig ac ar y bwlch cyflog rhwng grwpiau ethnig;

e. Ymrwymo i daro targedau i gynyddu cynrychiolaeth pobl BAME ar bob lefel yn y gweithlu.

28. Ymrwymo i'r uchelgais y dylai cyrff cyhoeddus yng Nghymru fod â gweithluoedd sy'n hiliol gynhyrchiol (cymharer rhaglen BME2020 Llywodraeth San Steffan yr oedd ganddi amcanion tebyg).

29. Ymwreiddio cydraddoldeb hiliol yn "Cymru'n Gweithio", rhaglen cyflogadwyedd newydd Llywodraeth Cymru:
    f. Sicrhau bod cyfraddau cyfranogi a deilliannau o ran cyflogaeth yn cael eu monitro ar sail ethnig, gan gynnwys manylion y sector galwedigaethol a chyfraddau cyflog;
    g. Sicrhau bod darparwyr yn recriwtio mwy o staff BAME, yn enwedig mewn ardaloedd lle y mae poblogaethau BAME dwys.
    h. Mynnu bod darparwyr yn trefnu hyfforddiant mewn cymhwysedd diwylliannol a chydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer eu staff, gan gynnwys hyfforddiant ynghylch y problemau penodol a wynebir gan unigolion BAME megis gwahaniaethu, tan-gyflogaeth, cydnabyddiaeth i gymwysterau tramor ayyb;
    i. Manteisio ar gydberthnasau â chyflogwyr i hyrwyddo gweithredu cadarnhaol er mwyn cynyddu amrywiaeth ethnig yn eu gweithlu a chynorthwyo cyflogedigion BAME i gamu ymlaen.

30. Defnyddio pwerau comisiynu a chaffael i fynnu bod cyflawnwyr gwasanaethau'n gweithredu'n gadarnhaol i droi gweithleoedd yn fwy amrywiol a chynhwysol ac i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a chamu ymlaen wedi'u targedu ar gyflogedigion o leiafrifoedd ethnig, megis dosbarthiadau ESOL ar y safle gwaith, e.e. dylai Llywodraeth Cymru ystyried argymhellion cyflawn arolwg y Farwnes McGregor-Smith ar 'Hil yn y Gweithle', sy'n mynnu bod unrhyw sefydliad sy'n derbyn cyllid cyhoeddus "yn gosod ac yn cyhoeddi targedau i sicrhau ei fod yn gynrychioladol o'r trethdalwyr y mae'n darparu ar eu cyfer".

31. Ennyn newid hefyd yn ymddygiad y sector preifat, trwy fynnu er enghraifft bod unrhywun sy'n tendro am gontract yn y sector cyhoeddus yn dangos pa gamau y mae'n eu cymryd i droi ei weithle'n fwy cynhwysol ei naws"[2].

32. Sicrhau bod gan deuluoedd o leiafrifoedd ethnig fynediad at addysg gynnar briodol a gofal plant.

33. Ariannu cyrsiau ESOL hygyrch ar y lefel briodol a'r dwysedd priodol, gan gynnwys opsiynau gofal plant di-dâl neu fforddiadwy.

34. Cefnogi hawliau gweithwyr BAME ac ymfudol trwy ddarparu cymorth a chyngor penodol ar gyfer gweithwyr BAME ac ymfudol sy'n arbennig o agored i gyflogwyr ecsbloetiol.

35. Gosod targedau cenedlaethol i ymgyrraedd atynt gyda golwg ar gau bylchau o ran gwahaniaethau ar sail hil ym meysydd cyflogaeth, anweithgarwch economaidd a lefelau cyflogau, megis gwelliant o 10% dros gyfnod penodol.

Cynrychiolaeth pobl BAME mewn Bywyd Cyhoeddus a Gwleidyddol

[2] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/594336/race-in-workplace-mcgregor-smith-review.pdf [cyrchwyd 10 Mai 2018]

36. Gweithredu'r argymhellion yn rhaglen 'Amrywiaeth mewn Democratiaeth' i ddymchwel y rhwystrau sy'n cadw pobl BAME rhag bod yn gynghorwyr lleol, a darparu adnoddau digonol ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol i sicrhau deilliannau cydraddol o ran cynrychiolaeth BAME ar gynghorau lleol.
37. Cyllido mwy o raglenni mentora, hyfforddi a chysgodi gwaith ar gyfer pobl BAME sy'n mentro i fywyd cyhoeddus, gan ddysgu gwersi arferion gorau'r gorffennol.
38. Archwilio diwylliant cyfredol cyrff cyhoeddus a chyhoeddus ar bob lefel (y Cynulliad Cenedlaethol, cynghorau lleol, byrddau arweinyddiaeth ayyb) er mwyn adnabod y rhwystrau dichonol rhag amrywiaeth.
39. Casglu a chyhoeddi data ar ethnigrwydd mewn perthynas â phwy sy'n sefyll, pwy sy'n cael eu henwebu a phwy sy'n ennill mewn etholiadau ar y lefelau lleol a chenedlaethol.
40. Dylai pleidiau gwleidyddol a chyrff gwleidyddol a chyhoeddus ystyried cymryd camau cyfreithiol cadarnhaol er mwyn gwireddu deilliannau cyfartal sy'n adlewyrchu cymeriad ethnig y gwahanol etholaethau.
41. Mynnu cael, a chymeradwyo, rhestrau byrion ag ymgeiswyr BAME yn unig mewn etholaethau sydd â phoblogaeth BAME sylweddol.
42. Arolygu'r meini prawf ar gyfer penodiadau cyhoeddus a mynnu bod ymgeiswyr wedi cael 'profiad byw' o'r sefyllfa/broblem y mae'r corff cyhoeddus dan sylw'n mynd i'r afael â hi.
43. Sicrhau bod paneli penodiadau cyhoeddus yn derbyn hyfforddiant mewn rhagfarn ddiarwybod cyn cynnal cyfweliadau.
44. Casglu a chyhoeddi data ar ethnigrwydd mewn perthynas â cheisiadau (nid penodiadau yn unig) am benodiadau cyhoeddus.
45. Dylai Llywodraeth Cymru ddemocrateiddio ei chysylltiadau ei hun ag unigolion BAME gan leihau ei dibyniaeth ar 'yr un hen' sefydliadau neu unigolion hunan-benodedig.

Anghydraddoldebau Iechyd a Chofid19

46. Parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Byrddau Iechyd at wella'r broses o gasglu data ar iechyd ac ethnigrwydd gyda golwg ar wella dealltwriaeth ac atal deilliannau iechyd anghyfartal i leiafrifoedd ethnig yn y dyfodol.
47. Gweithredu'n ddioed argymhellion Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar effeithiau Cofid ymhlith cymunedau BAME.
48. Cynyddu cyflogau'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol isaf eu cyflogau, y mae cyfradd anghymesur ohonynt yn bobl BAME.
49. Monitro effaith yr offeryn asesu risg Cofid19 gan gynnwys unrhyw effeithiau anfwriadol ar bobl BAME.
50. Sicrhau bod pob aelod staff iechyd a gofal cymdeithasol yn derbyn hyfforddiant trwyadl mewn cyfartaledd hiliol gyda golwg ar leihau rhagfarn ddiarwybod i'r eithaf.
51. Gwella'r strwythurau cymorth a chwynion i aelodau staff iechyd a gofal cymdeithasol sy'n dioddef gwahaniaethu ar sail hil.
52. Buddsoddi mewn dynesiad aml-sectoraidd cynhwysfawr at fynd i'r afael â meysydd megis hyrwyddo iechyd meddwl, atal, triniaeth, gwahaniaethu, allgáu, gofal ac adferiad, a hynny mewn modd sy'n ddiwylliannol sensitif ac yn ateb anghenion cymunedau BAME gan gynnwys pobl ifanc.

Cartrefi

53. Mae ffoaduriaid yng Nghymru'n wynebu rhwystrau sylweddol wrth geisio dod o hyd i lety priodol a chymorth, unwaith y maent wedi derbyn caniatâd i aros. Mae hyn yn rhwystr i'w gallu i symud eu bywydau yn eu blaen, integreiddo yn y gymdeithas ac osgoi disgynfa

droellog i dlodi, gan nad oes ganddynt ond 28 diwrnod ar ôl i'w statws gael ei gadarnhau i gyrchu llety, swydd, budd-daliadau a gwasanaethau eraill cyn iddynt gael eu troi allan o lety'r Swyddfa Gartref. Galwn ar Lywodraeth Cymru'r dyfodol i weithredu argymhellion Tai Pawb a gwaith ymchwil Llywodraeth Cymru gan weithio gyda Thai Pawb, awdurdodau lleol, RSLs (landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) a sefydliadau ffoaduriaid i sicrhau bod pobl yn cael symud ymlaen yn foddhaol a bod llety â chymorth digonol yn cael ei ddarparu ym mhob ardal wasgaru ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches diymgeledd.

54. Mynd i'r afael â phroblem cartrefi gorlawn ymhlith pobl BAME – mae cymunedau BAME mewn perygl mwy o lawer o ddioddef llety gorlawn, sydd yn ei dro yn cynyddu'r risg o heintiadau Cofid. Galwn ar Lywodraeth Cymru i orfodi awdurdodau lleol i arolygu eu polisïau ynghylch dyrannu llety gyda golwg ar leddfu problem gorlenwi. Gellid gwneud hyn trwy ddyfarnu mwy o bwyntiau i geiswyr cartrefi sy'n byw mewn llety gorlawn fel y byddant yn cael ei hailgartrefu'n gynt.
55. Cynnwys adran benodol mewn Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn trafod anghenion cymunedau BAME o ran llety, fel y bydd y cartrefi a ddatblygir yn ystod cyfnodau Llywodraethau Cymru yn y dyfodol yn adlewyrchu'r angen mewn rhai cymunedau BAME am dai mwy.
56. Cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy a thai cymdeithasol sy'n cael eu hadeiladu.
57. Comisiynu gwaith ymchwil i astudio pryderon ynghylch fforddiadwyedd sy'n effethio'n benodol ar gymunedau BAME ac ar deuluoedd niferus mewn llety gorlawn, a gweithredu mesurau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn gan gynnwys dylanwadu ar lywodraethau yn San Steffan i ddiddymu'r cyfyngiad ar uchafswm budd-daliadau sy'n effeithio'n anghymesur ar rai cymunedau BAME oherwydd maint eu teuluoedd.

Cynghrair Hil Cymru

Mehefin 2020

Cymeradwy-wyd gan:

- Nirushan Sudarsan, Cymorth i Ddioddefwyr
- Sahar Al-Faifi, MEND
- Gareth Sims (Ymgynghorydd)
- Leila Usmani, RAW
- Suzanne Duval, Diverse Cymru
- Rocío Cifuentes, EYST
- Jami Abramson, RAW
- Ginger Wiegand, EYST
- Faith Walker, Ymgynghorfa FW
- Tripti Megeri
- Noam Devey, Dangoswn y Cerdyn Coch i Hiliaeth
- Carol Adams, Food Adventure Cyf.
- Chwarae Teg
- Louse Gibbard, Cynghorydd y Blaid Lafur
- Patricia Rodrigues, Cymdeithas Iberaidd a Lladin-Americanaidd yng Nghymru
- Rachael Delacourt
- Pat Dunmore, Cyngor am Bopeth, Abertawe Castell Nedd Port Talbot
- Theatr Cenedlaethol Cymru
- Jill Duarte, Canolfan Gymunedol Affricaidd
- María Mesa, Women Connect First
- Abyd Quinn Aziz, Prifysgol Caerdydd
- Joy Kent
- Miwsig Celf Digidol (MAD) Abertawe

Cyfranwyr hyd yn hyn:

- Nirushan Sudarsan, Cymorth i Ddioddefwyr
- Humie Webbe NTFW
- Sahar Al-Faifi, MEND
- Gareth Sims
- Leila Usmani, RAW
- Joshua Robertson
- Suzanne Duval, Diverse Cymru
- Rocío Cifuentes, EYST
- Jami Abramson, RAW
- Ginger Wiegand, EYST
- Faith Walker, Ymgynghorfa FW
- Hilary Brown, Ymgynghorfa Virgo
- Jessica Rees, Cymorth i Ddioddefwyr
- Shahien Taj, Sefydliad Henna
- Andrea Cleaver, Cyngor Ffoaduriaid Cymru
- Samina Khan, Coleg Caerdydd a'r Fro
- Y Dr Howard
- Yr Athro Robert Moore, NWREN
- Sibani Roy, NWAMI
- Ali Abdi, Citizens Cymru Wales
- Maria Mesa, Women Connect First
- Abyd Quinn Aziz, Prifysgol Caerdydd